

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Lun Gorffennaf 3ydd 2017 am 7.30 y.h.

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd Gari Jones gymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Edmund Rees.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Alun Owen a Paul Weston
2. **Presennol:** Cyng. Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Cyngorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mehefin** -cynigwyd yn gywir gan Gerallt Jones gyda Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
 - 5.1. BDO – Cyfriflen – dal i ddisgwyl ateb ganddynt
 - 5.2. Archwilwyr Mewnol – wedi cael pris gan Iona Edwards Llanrwst a Hill a Roberts Bala y ddau am wneud y gwaith am yr un pris sef £50.00. + TAW.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. BDO – yr archwilwyr allanol – dweud fod pwyntiau heb ei datrys
 - 6.3. Dwr Cymru – gwahoddiad i'r diwrnod agored yn Ysbyty Ifan, neb am fynd.
7. **Cais Cynllunio:**

Cyfeirnod: 0/44094
Ymgeisydd Mr a Mrs T a D Wernery
Cynllun: Adnewyddu Tŷ a Hen Sied Cychod
Safle: Tyn Llyn, Pentrefoelas

Penderfynwyd gofyn am gopi caled o'r cynlluniau a threfnu cyfarfod i'w archwilio.
8. **A543:**

Arwydd 'Ffordd yn Culhau' wrth Hafod Dinbych hefyd arwyddion 'Araf' i gael ei beintio ar yr un ffordd yn y dyfodol agos.
9. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl edrych dros y gyllideb cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Gerallt Jones yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth mewn trefn.
10. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Cafwyd gair ganddo a dywedodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad ar heddlu ynglŷn â gor-yrro ar yr A543 ac yn disgwyl ateb.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Angen arwyddion 20 milltir yr awr o flaen yr ysgol.
 - 11.2. Lamp ym Maes yr Afon angen sylw.
 - 11.3. Waliau angen sylw.
 - 11.4. Gwair yn y parc picnic wedi ei dorri yn flêr a heb ei gasglu.
 - 11.5. Ceir wedi ei gadael ar y maes parcio top.
 - 11.6. Mynwentydd angen ei torri.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Medi 4ydd 2017 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd **G B Jones** Dyddiad 04.09.17
Cadeirydd

Cyfarfod ychwanegol Nos Fawrth Gorffennaf 11eg 2017 am 8 o'r golch

Ymddiheuriadau: Cyng. Paul Weston

Yn bresennol: Cyng. Gari Jones (Cadeirydd), Gerallt Jones, Dewi Evans, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts ac Enid Williams (Clerc)

Cais Cynllunio:

Cyfeirnod: 0/44094
Ymgeisydd: Mr a Mrs T a D Wernery
Cynllun: Adnewyddu Tŷ a Hen Sied Gychod
Safle: Tyn Llyn, Pentrefoelas

Ar ôl derbyn copi caled o'r cynlluniau ac edrych drostynt yn fanwl penderfynwyd cefnogi'r Cais ac ychwanegu'r sylwadau isod:

- a) Atgyweirio a chadw rhag mynd yn adfail ac atal rhag fandaliaeth.
- b) Mae'r safle wedi bod yn cael ei ddefnyddio fel lloches hyd yn ddiweddar gan saethwyr a hefyd ffermwyr yr ardal wrth gneifio.

Arwyddwyd _____ **G B Jones**
Cadeirydd

Dyddiad _____ 04.09.17